# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 22 Ionawr 2020

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Martha Da Gama Howells**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDGCh@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Trafodaeth ar 'Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr' a'r Ymchwiliad i Ddatganoli Darlledu: Darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus

(9.30-11.00) (Tudalennau 1 - 23)

Rhodri Talfan Davies, Cyfarwyddwr, BBC Cymru Wales

Phil Henfrey, Pennaeth Newyddion a Rhaglenni, ITV Cymru Wales

Magnus Brooke, Cyfarwyddwr Polisi a Materion Rheoleiddio, ITV

Owen Evans, Prif Weithredwr, S4C

## 3 Ymchwiliad i gerddoriaeth fyw yng Nghymru

(11.00 - 12.00) (Tudalennau 24 - 45)

Rhydian Dafydd, Artist, Joy Formidable

Andrew Hunt, Artist, Buffalo Summer

Rhys Carter, Artist, Valhalla Awaits

Gareth Lawrence, Artist, Blackout

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Llythyr gan y Cadeirydd at y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ynghylch Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020/21

(Tudalennau 46 - 48)

4.2 Llythyr gan y Cadeirydd at Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol ynghylch Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020/21

(Tudalennau 49 - 50)

4.3 Llythyr gan y Cadeirydd at Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020/21

(Tudalennau 51 - 52)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn

(12.00)

## 6 Ôl-drafodaeth breifat

(12.00-12.10)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

National Assembly for Wales
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Llywodraeth Cymru

17 Ionawr 2020

Annwyl Dafydd

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020/21**

Diolch i chi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 8 Ionawr i drafod Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020/21.

Diolch i chi am gytuno i roi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor ar y gyllideb a gwaith eich adran.

**Cyfuno**

Soniasoch fod y cynllun Cyfuno wedi cael ei adolygu'n ddiweddar ac y byddwch yn cynyddu'r dyraniad cyllid ar ei gyfer. Buaswn yn ddiolchgar pe gallech ysgrifennu at y Pwyllgor i nodi canlyniad yr adolygiad, ac union swm y cyllid ar gyfer cynllun Cyfuno unwaith y penderfynir ar hyn.

Dywedasoch hefyd y bydd eich adran yn rhoi blaenoriaeth i gynyddu cyfranogiad a phresenoldeb mewn safleoedd diwylliannol a safleoedd treftadaeth yn eich portffolio. Unwaith eto, byddwn yn ddiolchgar pe gallech gynnwys ffigurau ar gyfraddau presenoldeb a chyfranogi presennol a'ch ffigurau targed yn hyn o beth ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Hoffai'r Pwyllgor fynd ar drywydd y nod hwn fel rhan o'n gwaith craffu ar y gyllideb o ran y gyllideb y flwyddyn nesaf.

**Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Chwaraeon**

Deallaf eich bod yn disgwyl derbyn achosion busnes ar gyfer yr Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol a'r Amgueddfa Chwaraeon yr haf hwn. Dywedasoch hefyd y byddwch yn ceisio cyllid ychwanegol yn y gyllideb atodol i fwrw ymlaen â'r prosiectau hyn.

A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniadau'r achosion busnes, eich cais am gyllid a phryd rydych yn gobeithio cyhoeddi eich penderfyniad ar y camau nesaf ym mhob achos.

**Penodi Cyfarwyddwr Masnachol i Amgueddfa Genedlaethol Cymru**

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed o ran penodi Cyfarwyddwr Masnachol i Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech nodi'r rhesymau pam na wnaed y penodiad yn gynt. Nododd yr Aelodau yn ystod y drafodaeth ar y pwnc hwn y gallai cyfuno'r swydd hon â chyfrifoldebau ar draws nifer fwy o sefydliadau olygu y gellir cynnig cyflog uwch ac y gallai ddenu cronfa fwy o ymgeiswyr.

**Cyllid ar gyfer prosiectau ffilm a theledu mawr**

A oes modd i chi amlinellu gwerth a natur y prosiectau sydd wedi cael cefnogaeth cyllid y Llywodraeth ers y saib o ran y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau? A oes modd i chi amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod gwybodaeth ar gael i ymgeiswyr am y cyllid hwn yn ystod y saib o ran y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau? Mae rhanddeiliaid wedi dweud wrth y Pwyllgor yn anffurfiol bod diffyg gwybodaeth a diffyg cyhoeddusrwydd ynghylch cefnogaeth posibl gan y Llywodraeth ar gyfer prosiectau.

A allwch nodi'r gwersi a ddysgwyd yn sgîl y ffordd y gweinyddwyd y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau a gaiff ei throsglwyddo i'r dull cyllido a gynigir ar gyfer ffilm a theledu o dan Cymru Greadigol?

**Lleoliadau cerddoriaeth fyw**

Soniasoch y byddwch yn blaenoriaethu dulliau i gefnogi lleoliadau cerddoriaeth fyw a hyrwyddwyr, i leihau'r risg ariannol a all ddeillio o gynnal digwyddiadau. A allwch ddarparu rhagor o fanylion am y cynigion hyn?

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee


**Cronfa newyddiaduraeth hyperleol**

A allwch ddarparu canlyniadau'r astudiaeth hon i'r Pwyllgor, a nodi a yw'r arian hwnnw wedi cyflawni'r amcanion a ddymunwyd? A allwch roi gwybod i ni a fydd y gronfa'n parhau?

Er mwyn symud ymlaen â gwaith y Pwyllgor, byddwn yn gwerthfawrogi pe gallech ymateb i'r cwestiynau hyn erbyn 30 Ionawr 2020.

Diolch eto am ddarparu rhagor o fanylion am y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2020/21.

Yn gywir,



Bethan Sayed

**Cadeirydd y Pwyllgor**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Eitem 4.2

Eluned Morgan AC

Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

16 Ionawr 2020

Annwyl Eluned

**Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020/21**

Diolch i chi am ddod i gyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 8 Ionawr i drafod Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020/21.

Yn y cyfarfod, fe wnaethoch chi gytuno i ddarparu rhagor o fanylion am rai agweddau ar y gyllideb.

Mewn ymateb i bryderon bod y gyllideb ar gyfer y Gymraeg yn un fflat a'i bod yn llai na chwyddiant, fe wnaethoch chi ddweud bod yna brif ffrydio cyllid ar draws Llywodraeth Cymru gyfan a fydd yn cyfrannu at y Gymraeg. Fel enghraifft, fe wnaethoch chi sôn am y £45 miliwn o gyfalaf a fuddsoddwyd mewn ysgolion y llynedd a bod hynny yn uniongyrchol yn helpu'r Gymraeg.

Allwch chi roi eglurhad o’r meysydd mewn portffolios Gweinidogol eraill lle mae dyraniadau’n cael eu defnyddio i brif ffrydio'r Gymraeg, a faint o arian sy’n cael ei ddarparu i gyflawni hyn? Allwch chi hefyd ddweud wrthyn ni sut rydych chi'n eu dwyn i gyfrif o fewn y Llywodraeth, er mwyn sicrhau eu bod yn ffocysu’r dyraniadau ar y Gymraeg, lle mae'n cael ei phrif ffrydio?

Allwch chi amlinellu sut y byddwch yn dangos yr enillion ddaw yn sgil y buddsoddiad ar y Gymraeg wrth wneud y gwariant prif ffrwd hwn? Mae'r Aelodau'n pryderu y gallai prif ffrydio heb ddarparu gwybodaeth berthnasol arwain at ddiffyg tryloywder o ran sut rydyn ni’n asesu canlyniadau gwariant Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg.

**Addysg Bellach**

Rwy'n deall bod £14 miliwn arall wedi'i ddyrannu i Addysg Bellach yn gyffredinol. Allwch chi gadarnhau faint o hwnnw fydd yn cael ei wario ar addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys prentisiaethau?

Allwch chi roi'r cyfanswm presennol a'r ffigur targed i ni ar gyfer prentisiaethau cyfrwng Cymraeg?

**Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**

Yn ystod y cyfarfod fe wnaethoch chi sôn am bwysigrwydd ceisio gwerth am arian yn barhaus a dal i archwilio a yw’r arian cywir yn cael ei wario yn y mannau cywir.

Yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Ionawr fe wnaethoch chi hefyd ddweud:

> 'Mae'n rhaid i fi ddweud yn hollol glir fy mod i'n falch iawn gyda'r gwaith y mae'r ganolfan dysgu yn ei wneud, ac mae tua 12,000 o bobl yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, ond rŷm ni yn rhoi tua £13 miliwn i'r ganolfan. Felly, mae hi'n gyfran eithaf mawr o'm cyllideb i. Dyna pam dwi eisiau jest craffu yn fwy manwl ar sut mae hynny'n cael ei wario.'

Allwch chi nodi'ch cynlluniau ar gyfer adolygu'r cyllid ar gyfer y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, gan gynnwys yr amserlen ar gyfer y gwaith hwn ac, os yn bosibl, manylion y meysydd lle rydych chi'n ystyried gwneud arbedion? Allwch chi ddweud wrthyn ni pam eich bod wedi nodi'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol fel y man lle mae angen gwneud arbedion, o'i gymharu ag elfennau eraill eich portffolio?  Byddwn yn ddiolchgar pe gallech chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniadau'r adolygiad hwn pan fyddant ar gael.

**Gwaith Comisiynydd y Gymraeg**

Pan wnaethon ni siarad â Chomisiynydd y Gymraeg yn ein cyfarfod ar 18 Medi 2019, gofynnwyd iddo wneud sylwadau ar yr angen am ymchwil i'r defnydd o iaith a dywedodd 'Mi fydd yna hefyd gais yn cael ei roi i'r Llywodraeth. Os ydyn nhw'n awyddus i ni wneud gwaith ar brosiectau arbennig, fydd ddim yn ychwanegu at ein cyllideb graidd ni, ond fydd yn arian prosiectau…'

Rydych wedi dweud nad ydych chi'n bwriadu dyrannu mwy o fewn y gyllideb ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer prosiectau neu raglenni penodol, fesul achos. Ydych chi'n gwbl fodlon y bydd y Comisiynydd yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau yn effeithiol o fewn y gyllideb a ddyrannwyd, ac a yw e wedi gwneud cais penodol am ragor o gyllid yn eich trafodaethau ag ef am y gyllideb?

Er mwyn llywio ein trafodaethau ar y Gyllideb Ddrafft, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ateb erbyn 30 Ionawr, gydag ymddiheuriadau am yr amserlen dynn.

Yn gywir



Bethan Sayed

**Cadeirydd y Pwyllgor**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee



Aled Roberts

Comisiynydd y Gymraeg

16 Ionawr 2020

Annwyl Aled,

Yn ei gyfarfod ar 8 Ionawr, trafododd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020/21 â Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn y cyfarfod gwnaethom drafod y dyraniadau cyllideb ar gyfer cefnogi a hybu'r Gymraeg yn gyffredinol ac ar gyfer eich gwaith yn benodol.

Byddwn yn ddiolchgar am eich sylwadau ar gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer ariannu cefnogaeth i'r Gymraeg yn y tymor hir ac yn y flwyddyn i ddod. Roedd aelodau'r Pwyllgor yn pryderu y gallai prif ffrydio cyllid ar gyfer yr iaith ar draws portffolios Gweinidogol arwain at ddiffyg tryloywder yn y gyllideb ddrafft os na fydd gwybodaeth am y cyllid hwn ar gael. Tybed a oes gennych unrhyw bryderon cyffelyb?

Trafododd y Gweinidog y setliad cyllido ar gyfer eich swyddfa a'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth a luniwyd ar gyfer eich sefydliad chi a Llywodraeth Cymru er mwyn lleihau dyblygu. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi barn ynghylch a yw'r dyraniadau cyfalaf a refeniw yn y gyllideb ddrafft yn caniatáu i'ch sefydliad gyflawni ei rwymedigaethau ar gyfer 2020-21.

Er mwyn bwrw ymlaen â'n trafodaethau ar y Gyllideb Ddrafft, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ateb erbyn 30 Ionawr, gydag ymddiheuriadau am yr amserlen dynn.

Yn gywir,

Bethan Sayed

**Cadeirydd y Pwyllgor**